



# Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Tai a Llety

## Cefndir

Mae Llywodraeth Cymru am gyhoeddi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol i fynd i'r afael ag anghydraddoldeb hiliol a chenhedlig strwythurol yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2020). Mae'r papur hwn yn crynhoi un o chwe adroddiad luniodd Canolfan Polisiau Cyhoeddus Cymru i roi tystiolaeth annibynnol ar gyfer paratoi'r cynllun gweithredu. Mae'n trafod tystiolaeth ac argymhellion ar gyfer camau hybu cydraddoldeb ym maes tai a llety.

## Cyflwyniad

Mae ystadegau wedi'u cyhoeddi yng Nghymru yn awgrymu bod llai o bobl groenddu, Asiaid a'r rhai o dras leiafrifol yn berchen ar eu cartrefi gan fod y rhan fwyaf ohonyн nhw'n rhentu tai preifat neu gymdeithasol (Ystadegau Cymru, 2020a). Mae mwy o orlenwi yng Nghymru nag sydd yn Lloegr, yn arbennig ymhliith pobl groenddu, Asiaid a'r rhai o dras leiafrifol - mae 28.7% o Sipsiwn a Chrwydrwyr o Wyddelod, 27% o frodorion Gwlad Bangla a 26.9% o bobl groenddu eraill yn byw mewn cartrefi gorlawn (Ystadegau Cymru 2020b). Gwyddelod gwyn eu croen yw'r grŵp lleiaf gorlawn ei gartrefi yng Nghymru (3.9%), a 3% yw'r cyfartaledd i bob cartref yn Lloegr.

Mae perthynas materion tai a thras yn amlycach fyth o ganlyniad i bandemig y Firws Corona sydd wedi tynnu sylw at fathau o anghydraddoldeb (e.e. Ogbonna, 2020). Er eu bod yn denu llai o sylw na rhai elfennau eraill o anghydraddoldeb hiliol, mae materion tai'n benderfnydd pwysig o ran iechyd a lles ymhliith pobl o dras neu genedligrwydd lleiafrifol achos

bod cysylltiadau cryf rhwng tai ac amryw fathau eraill o anghydraddoldeb hiliol. Er enghraift:

- Anghydraddoldeb yngylch incwm a chyfoeth (i'w weld trwy anawsterau dod o hyd i dai addas a gorlenwi).
- Iechyd (am fod cyflyrau tai a deilliannau iechyd yn gysylltiedig).
- Cydlyniant diwylliannol a chymunedol (gan gynnwys materion arwahanu a chymathu).

Mae tystiolaeth ac argymhellion isod yngylch llwyddiant camau lleddfu gwahaniaethau hiliol o ran tai a llety - a hynny yn ôl tri maes eang. Mae prinder tystiolaeth gyfoes am gydraddoldeb hiliol yng Nghymru, ond dyma'r deunydd gorau sydd ar gael.

## Ansawdd ac argaeledd tai

I wella sefyllfa pobl groenddu, Asiaid a'r rhai o dras leiafrifol ym maes tai, rhaid gwella cyflwr pob math o gartrefi (tai cymdeithasol, tai preifat sydd ar osod a thai mae'u perchnogion yn byw ynddyn nhw) yn ogystal â'i gwneud yn haws i bobl brynu eu cartrefi. Bydd camau cyffredinol i gynnig rhagor o swyddi i garfanau o'r fath a chynyddu eu hincwm yn helpu i gyflawni hynny, hefyd. At hynny, dyma argymhellion penodol ar gyfer gweithredu ym maes tai.

## Argymhellion

- Ystyried comisiynu ymchwil i werthuso pa mor effeithiol yw cymdeithasau tai hiliau croenddu a lleiafrifol yng ngwledydd eraill

y deyrnas i asesu a fyddai modd sefydlu un yng Nghymru.

- Hel data cyfoes fesul carfan am ehangder a lleoliadau gorlenwi yng Nghymru. Dylid llunio strategaeth lleddfu gorlenwi wedyn, yn arbennig lle mae ar ei waethaf.
- Gallai camau dros dro megis blaenorriaethu'r rhai sy'n byw mewn cartrefi gorlawn ar restrau aros tai cymdeithasol fod o gymorth ar yr amod bod digon o gartrefi addas.
- Asesu anghenion diwylliannol ynghylch tai trwy astudio sampl nodweddiadol o gymunedau croenddu, Asiaidd a chenedligrwydd lleiafrifol Cymru.
- Cryfhau'r ymdrech i ymgysylltu â thenantiaid a perchnogion cartrefi ymhlih pobl groenddu, Asiaid a'r rhai o dras leiafrifol gan gynnwys trwy allgymorth ac ymgysylltu rhagweithiol. Dylid dysgu trwy astudio arferion gorau'r sector.
- Ceisio deall rhagor am anghenion cymunedau Sipsiwn, Roma a Chrwydrwyr. Dylai fod ymdrechion i gael gafael ar ddata gwell am faint o Sipsiwn, Roma a Chrwydrwyr sydd yn y wlad, gan gynnwys y rhai sydd wedi'u 'cartrefu'. Wrth asesu anghenion o ran tai, dylid ystyried a hoffai rhai pobl sydd wedi'u 'cartrefu' ddychwelyd i ffordd fwy traddodiadol o fyw.

Cynyddu nifer y safleoedd o safon mae'r awdurdodau lleol yn eu rhoi ar gael i gymunedau Sipsiwn, Roma a Chrwydrwyr gan gynnwys cynnig manau aros dros dro.

- Cynnwys data am anghenion pobl groenddu, Asiaid a'r rhai o dras leiafrifol wrth asesu marchnadoedd tai lleol.
- Ar ôl asesu marchnadoedd tai lleol, gofalu y bydd y canlyniadau'n dylanwadu ar

benderfyniadau ar safleoedd a gofynion prosiectau codi tai.

- Parhau â'r ymdrechion (a'u cyflymu, lle bo modd) i godi a chynnig rhagor o dai cymdeithasol a fforddiadwy achos y bydd o les i gymunedau croenddu, Asiaidd a chenedligrwydd lleiafrifol.
- Ceisio pennu a yw strwythur cyfredol grantiau tai cymdeithasol yn faen tramgywydd o ran argaeedd.
- Ystyried adnewyddu adeiladau gwag lle mae'r rhan fwyaf o gymunedau croenddu, Asiaidd a chenedligrwydd lleiafrifol, megis ardaloedd o gwmpas canol y ddinas, er mwyn helpu i wella cyflyrau tai.

## Digartrefedd a pherygl digartrefedd

Mae mwy o berygl y bydd pobl groenddu, Asiaid a'r rhai o dras leiafrifol heb gartref, yn arbennig eu hasesu'n rhai nad ydyn nhw heb gartref o'u gwirfodd yn ôl adran 75 Deddf Tai Cymru 2014 (Ystadegau Cymru, 2019). Mae mwy a mwy o anghyimesuredd wrth symud trwy'r drefn, gan ddangos y gallai fod problemau parhaus ynghylch deall a diwallu anghenion pobl groenddu, Asiaid a'r rhai o dras leiafrifol o ran tai.

## Argymhellion

- Gofalu bod anghenion pobl groenddu, Asiaid a'r rhai o dras leiafrifol yn rhan o strategaeth lleddfu digartrefedd Llywodraeth Cymru, gan roi sylw arbennig i allgymorth a chodi ymwybyddiaeth ymhlih grwpiau sy'n agored i niwed.
- Gofalu bod llety 'symud ymlaen' ar gael i ffoaduriaid am y gallai hynny helpu i ostwng nifer anghyimesur y bobl groenddu, yr Asiaid a'r rhai o dras leiafrifol sy'n gofyn am gartref trwy adran 75.
- Defnyddio gofynion sydd wedi'u cyflwyno ar gyfer pandemig y Firws Corona yn fan

cychwyn llunio strategaeth atal digartrefedd a helpu'r rhai sy'n cysgu yn yr awyr agored dros y tymor hir.

## Cydlyniant cymunedol ac arwahanu ymhllith preswylwyr

Mae'r ymdrech i annog pobl i gymathu a meithrin ymdeimlad o berthyn yn eu plith yn ehangach o lawer na pholisiau tai ond gan fod lleoliadau a chyflyrau tai'n effeithio ar gymathu, mae'n bwysig ystyried ffyrrd o ddefnyddio materion tai i fynd i'r afael ag arwahanu ymhllith preswylwyr a chreu cymdogaethau mwy cyfun, amryfal eu hiliau a'u cymdeithasau.

O wella ansawdd tai ynghyd â strategaeth hybu cymathu, gallai fod modd cwtogi ar arwahanu yn ogystal â gofalu bod adnoddau cymunedol ar gael yn ôl yr angen i bobl mewn cymunedau croenddu, Asiaidd a chenedligrwydd lleiafrifol (Beider, 2012).

Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod amrywioldeb cenhedlig yn amharu ar ymddiried cymdeithasol, yn arbennig mewn cymdogaethau (Dinesen ac ati, 2020). Felly byddai strategaethau cymathu a chynlluniau gwrth-arwahanu lleol yn arbennig o fuddiol.

## Argymhellion

- Gwella ansawdd tai a chodi rhagor o dai lle mae cymunedau croenddu, Asiaidd a chenedligrwydd lleiafrifol, neu'n agos i'r ardaloedd hynny, a hybu cymdogaethau cymysg o safbwyt cymdeithasol a chenhedlig.
- Adnewyddu Strategaeth Cydlyniant Cymunedol Llywodraeth Cymru gan ganolbwytio ar gynyddu rhyngweithio cymdeithasol ymhllith y grwpiau, meithrin ymdeimlad o ddiben sy'n gyffredin a hybu cymdeithas a diwylliant unedig Cymru.

## Casgliad

Yn ogystal â'r argymhellion ar gyfer rhai meysydd penodol, mae canfyddiadau mwy cyffredinol wedi deillio o'r ymchwil ac mae'n werth eu hystyried. Er enghraifft:

- Casglu a chyhoeddi'n well ddata am hiliau, tai a llety yng Nghymru.
- Diweddar neu baratoi cynlluniau gweithredu ym maes tai er lles pobl groenddu, Asiaid a'r rhai o dras leiafrifol.
- Ystyried y ffordd orau o ymgysylltu â charfanau anodd eu cyrraedd nad ydyn nhw'n ymwybodol o wasanaethau cyhoeddus sydd ar gael iddyn nhw.
- Astudiwr posibiliadau yngylch cynnwys rhai o argymhellion y papur hwn mewn cynllun adfer ar ôl pandemig y Firws Corona.

## Argymhellion

- Diweddarwr cynllun gweithredu a gyhoeddodd Llywodraeth Cymru 18 mlynedd yn ôl er lles pobl groenddu a'r rhai o dras leiafrifol ym maes tai fel y bydd un newydd, wedi'i seilio ar dystiolaeth, sy'n addo pethau penodol.
- Hel data ar faterion tai a chenedligrwydd Cymru yn rheolaidd a'u cyhoeddi ar ffurf hygrych yn ôl arfer y gwasanaeth dros ystadegau am faterion tras yn Lloegr.
- Cryfhau'r ymdrech i gyrraedd cymunedau ynysig neu anniddig gan gynnwys astudio dulliau cyfathrebu effeithiol.

## Llyfryddiaeth

Beider, H. (2012). **Race, Housing and Community: Perspectives on Policy and Practice**. John Wiley & Sons.

Dinesen, PT, Schaeffer, M., a Sønderskov, KM (2020). **Ethnic Diversity and Social Trust: A Narrative and Meta-Analytical Review**. Annual

Review of Political Science vol. 23, pp. 441-465.  
<https://doi.org/10.1146/annurev-polisci-052918-020708>

Ogbonna, E. (Cadeirydd). (2020). **Grŵp Cynghori'r Prif Weinidog dros Effaith Covid-19 ar Bobl Groenddu, Asiaid a'r Rhai o Dras Leiafrifol: Adroddiad yr Is-grŵp Economaidd-Gymdeithasol.** Llywodraeth Cymru.  
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-06/first-ministers-bame-covid-19-advisory-group-report-of-the-socioeconomic-subgroup.pdf>

Cynghrair Hiliau Cymru. (2020). **Our Manifesto for an Anti-Racist Wales.**  
<https://racealliance.wales/wp-content/uploads/2020/07/From-Rhetoric-to-Reality-Our-Manifesto-for-an-Anti-Racist-Wales-Race-Alliance-Wales.pdf>

Ystadegau Cymru. (2019). Rhifyn Cyntaf Ystadegau: Digartrefedd yng Nghymru, 2018/19.  
<https://gov.wales/sites/default/files/statistics-and-research/2019-07/homelessness-april-2018-march-2019-993.pdf>

Ystadegau Cymru. (2020a). **Daliadaeth tai yn ôl nodweddion gwarchodedig.** <https://gov.wales/ad-hoc-statistical-requests-31-august-11-september-2020>

Ystadegau Cymru. (2020b). **Grŵp Gwybodaeth am Dai ar 24ain Medi - Tai a Chydraddoldeb.**  
<https://gov.wales/sites/default/files/publications/2020-10/housing-information-group-24-september-2020-housing-and-equalities.pdf>

Llywodraeth Cymru. (2020). **Nawr yw'r amser i weithredu yn erbyn anghydraddoldeb hiliol: Llywodraeth Cymru yn gosod llwybr ar gyfer newid systemig a chynaliadwy i Gymru.** Datganiad i'r Wasg. 24ain Medi 2020. <https://llyw.cymru/nawr-yw-r-amser-i-weithredu-yn-erbyn-anghydraddoldeb-hiliol-llywodraeth-cymru-yn-gosod-llwybr-ar>

## Rhagor o wybodaeth

Am yr adroddiad cyflawn, gweler Price, J. (2020). **Gwella Cydraddoldeb Hiliol ym maes Tai a Llety.** Caerdydd: Canolfan Polisiau Cyhoeddus Cymru.

## Ynglŷn â Chanolfan Polisiau Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol

a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Dr Jack Price**

+44 (0)29 2087 5345

[jack.price@wcpp.org.uk](mailto:jack.price@wcpp.org.uk)

## Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, 10/12 Plas yr Amgueddfa, Caerdydd, CF10 3BG

 [www.wcpp.org.uk/cy](http://www.wcpp.org.uk/cy)

 029 2087 5345

 [info@wcpp.org.uk](mailto:info@wcpp.org.uk)

 @WCfPP

